



## **Bwletin Awdurdod S4C**

### **Cyfarfod 350 – 17 Tachwedd 2011**

### **S4C, Caerdydd**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2011.

#### **1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 349**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 349.

#### **2. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

#### **3. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

#### **Adolygiad Effeithlonrwydd ac Arloesi gan Richie Turner**

Ni fu'n bosibl i gyhoeddi'r Adroddiad a'r ymateb mor fuan â'r disgwyl yn dilyn y sylwadau pellach a dderbyniwyd. Roedd angen symleiddio'r ddogfen gan osgoi ailadrodd. Dosberthir drafft newydd i'r Aelodau yn fuan.

#### **Adroddiad Effeithiolrwydd mewnol**

Eglurodd AEO y newidiadau sydd ar y gweill o fewn adrannau yn dilyn yr ymddiswyddiadau gwirfoddol. Cyfeiriodd at ddwy swydd sydd angen eu hysbysebu sef Swyddog Masnachol i'r Tîm Comisiynu a Chydlynnydd Cynnwys Digidol. Argymhellwyd cytundeb 6 mis ar gyfer y ddwy swydd a hysbysebion mewnol ac allanol. Cymeradwyodd yr aelodau hysbysebu'r swyddi cyn gynted â phosibl.

#### **DCMS/BBC**

Roedd yr ymateb i'r cytundeb wedi bod yn dda. Trafodwyd amserlen a manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus. Amlinellwyd yr amserlen seneddol ddiweddaraf er mwyn cyflwyno'r newidiadau arfaethedig. Y bwriad yw cael Gorchymyn mewn lle erbyn mis Gorffennaf 2012.

#### **Y Ddeddf Llwgrwobrwyath**

Tynnodd AEO sylw'r Awdurdod at y Ddeddf ac roedd yn trefnu cyflwyniad i'r Tîm Rheoli ym mis Rhagfyr. Cytunwyd i drefnu papur i sylw'r Awdurdod hefyd.

#### **Adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd**

Nododd AEO ei fod wedi derbyn sylwadau gan aelodau'r Tîm Rheoli ac roeddynt yn gefnogol i'r argymhellion ac i'r ymgynghoriad. Roedd yn bwysig i sylweddoli beth yn union mae S4C yn gallu cyflawni ar hyn o bryd yn y maes gan ystyried mai dim ond dau aelod o staff sy'n gweithio ar brosiectau ar-lein. Bydd angen symud adnoddau i ddatblygu gwaith S4C yn y maes.

Cyfeiriodd hefyd at yr angen i gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar ffurf Gorchymyn os yw S4C yn bwriadu creu deunydd digidol na fydd yn ymwneud ag unrhyw raglen deledu.

#### **4. Ail Strwythuro'r Grŵp Masnachol**

Cyflwynodd KM gais ar ran y Bwrdd Masnachol i ail strwythuro'r Grŵp Masnachol. Cymeradwywyd yr argymhellion a gofynnwyd i PW hysbysu'r DCMS o'r newidiadau.

## 5. Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Adroddodd RhT yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ddoe.

### Tendrau darparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol a Gwasanaethau Archwilio Allanol

Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar gyfer yr uchod ddoe. Argymhelliad y Pwyllgor oedd penodi cwmni Grant Thornton i ddarparu gwasanaeth archwilio allanol a chwmni PricewaterhouseCoopers i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol. Mae penodiad yr archwilwyr allanol yn ddarostyngedig i sêl bendith y DCMS. Cymeradwyodd yr Awdurdod benderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

## 6. Aelodaeth Pwyllgorau'r Awdurdod

Esboniodd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Syr Roger Jones. Diolchodd iddo ar ran yr Awdurdod a'r swyddogion am wyth mlynedd o wasanaeth ar Awdurdod S4C.

Trafodwyd goblygiadau ymadawiad Syr Roger Jones i aelodaeth Pwyllgorau'r Awdurdod a'r Bwrdd Masnachol. Cyflwynwyd patrwm newydd o aelodaeth i ystyriaeth yr Aelodau.

## 7. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Croesawyd GR i'r cyfarfod a chyflwynodd yr adroddiadau Comisiynu ac Ymchwil gyda'i gilydd gan gynnwys yr isod.

- Cyfeiriodd at raglen **Kate y Cofiant** a ddarlledir ar nos Sul, 20.11.2011. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â chyhoeddiad cyfrol newydd gan Alan Llwyd.
- Mae **Gwaith/Cartref a Pobol y Cwm** yn perfformio'n dda gyda straeon gafaelgar. Mae ail gyfres o **Gwaith/Cartref** wedi'i chomisiynu ar gyfer 2012.
- Cafodd **Zanzibar** ymateb amrywiol. Cyfeiriwyd y gyfres at bobl ifanc yn benodol ond weithiau maent yn ymateb yn well i gyfresi a anelwyd yn fwy cyffredinol.
- Mae **Fferm Ffactor** yn enghraifft o gyfres "realiti" sydd ag elfennau ffermiwla, ond eto sydd wedi dod o hyd i thema a nodweddion Cymreig gwreiddiol ac o'r herwydd yn perfformio'n dda.

Nododd GR fod yr ail ffenestr gomisiynu wedi agor ar 28.10.2011. Cynhaliwyd dau sesiwn briffio gyda 60 yn mynychu'r sesiwn yn y Gogledd a thua 80 y sesiwn yn y De. Mae dyddiad cau'r ffenestr ar 30.11.2011.

## 7. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél